

Gwybodaeth i Gleifion

Clinig Mynediad Cyflym

Ysbyty Nevill Hall

Croeso i Ysbyty Nevill Hall

Mae gennych apwyntiad gyda thîm Dr Jones neu Dr Brouns yn ein clinig mynediad cyflym i'r frest. Mae hyn am fod gan eich meddyg bryderon am eich symptomau a/neu fod rhywbeth anarferol wedi'i ganfod ar y pelydr-x o'ch brest.

Cofiwch ar y cam hwn nad ydym yn siwr a oes unrhyw beth i boeni amdano. Rydym am weld a oes problem cyn gynted â phosibl.

Cynhelir y clinig yn yr adran cleifion allanol, llawr isaf, Ysbyty Nevill Hall, Brecon Road, Y Fenni.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am eich apwyntiad i glinig y frest ac am rai o'r profiad y gallai fod angen eu gwneud arnoch.

Os oes angen prawf arnoch, bydd naill ai ar yr adeg hon neu mewn apwyntiad arall a gaiff ei drefnu i chi.

Mae'r ymchwiliadau posibl y gallwn ofyn amdanynt yn cynnwys y canlynol:

- **Pelydr-x o'r frest**

Er y gallech fod wedi cael pelydr-x yn ddiweddar drwy eich meddyg teulu, gallai fod angen cael un arall ar yr ymweliad hwn.

- **Sbirometreg (prawf gweithrediad yr ysgyfaint)**

Mae'r prawf hwn yn gofyn i chi chwythu'n galed i mewn i beiriant i brofi gweithrediad eich ysgyfaint. Efallai y bydd angen prawf gweithrediad ysgyfaint llawn pellach ar ddyddiad diweddarach.

- **Sgan CT (sgan CAT)**

Mae hwn yn brawf di-boen sy'n debyg i belydr-x sy'n rhoi gwybodaeth fanylach i ni. Bydd angen i chi orwedd ar fwrdd, sy'n araf yn pasio drwy'r peiriant sganio. Efallai y bydd gennych apwyntiad i gael y prawf hwn cyn clinig neu efallai y bydd yn cael ei wneud ar adeg eich ymweliad clinig.

Mae ymchwiliadau posibl eraill yn cynnwys:

- **Broncosgopi ac neu EBUS (uwchsain Endobronciol)**

Dyma brawf lle gall y meddyg edrych y tu fewn i'ch ysgyfaint. Cewch gyffur tawelu ac anesthetig lleol. Mae'r meddyg yn rhoi telesgop bach i fyny'ch trwyn ac i lawr eich corn gwddf (trachea). Gall y meddyg gymryd sampl o feinwe (biopsi) ar gyfer profion neu samplo nodau lymff sy'n agos i'ch llwybrau anadlu a allai gael eu hehangu.

- **Biopsi Ysgyfaint**

Gallai fod angen i ni gymryd sampl meinwe bach o'ch ysgyfaint i'w ddiagnosio. Gall meddyg wneud hyn drwy basio nodwydd fach drwy wal eich brest dan anesthetig lleol. Mae hyn yn digwydd wrth i chi gael pelydr-x. Cewch eich derbyn i Nevill Hall am hyn ac efallai y bydd yn rhaid i chi aros dros nos.

Fel arfer bydd canlyniadau'r holl archwiliadau ar gael o fewn rhai wythnosau, ac ar ôl hynny byddwn yn trefnu i'ch gweld eto mewn clinig.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi yn eich apwyntiad. Mae angen eich cefndir meddygol llawn arnom a manylion o driniaeth rydych chi'n ei chael ar hyn o bryd. Dylech ddod â rhestr o'ch meddyginiaethau presennol os oes modd.

Byddwn yn ceisio'ch gweld gynted â phosib yn yr apwyntiad ond gall oedi ddigwydd. Efallai yr hoffech chi ddod â rhywbeth gyda chi i'w ddarllen er mwyn helpu i basio'r amser.

Gallwch ddod â rhywun arall gyda chi i'r apwyntiad. Gall fod yn berthynas neu'n ffrind, a all eich helpu i gofio'r wybodaeth a roddodd

y meddyg i chi.

Yn ystod yr apwyntiad byddwn yn rhoi amser i chi ofyn unrhyw gwestiynau i ni am beth sy'n digwydd i chi.

Yn olaf, os ydych ar unrhyw bryd yn teimlo nad ydych wedi cael digon o wybodaeth neu nad ydym yn bodloni'ch anghenion, rhowch wybod i ni.

Yn yr ysbyty hwn, yn aml iawn, mae gennym fyfyrwyr meddygol a nyrsio yn dod i ddysgu. Yn ystod eich apwyntiad, gall y meddyg ofyn am eich caniatâd i'r myfyrwyr fod yn bresennol. Os nad ydych am iddynt fod yno, rhowch wybod i ni.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Defnyddiwch y gofod isod i ysgrifennu unrhyw gwestiynau a allai fod gennych i ni.

Manylion Cyswllt

Dr M Jones

Meddyg Ymgynghorol Meddyginiaeth Anadlol
01873 732096 (Ysgrifennydd)

Dr M Brouns

Meddyg Ymgynghorol Meddyginiaeth Anadlol
01873 732096 (Ysgrifennydd)

Carol Davies

Nyrs Arbenigol yr Ysgyfaint Macmillan
01873 732860
Bleep 5699

Emma Williams

Nrs Arbenigol Glinigol Anadlol
Nyrs Ysgyfaint Arbenigol
01873 732860
Bleep 5699

Nyrs Ymchwil

01873 732926

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**